

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

29 Tachwedd 2017

Yn Bresennol: Mrs G Hayward (Cadeirydd)

Mr A Archer, Cynghorydd P Baker, Cynghorydd Mrs D Clements, Ms C Gwyther, Cynghorydd P Harries, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd M James, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Mr AE Sangster, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 12.30pm)

## 1. Personol

Cyhoeddodd y Cadeirydd mai heddiw fyddai cyfarfod olaf yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i Ms Chris Gwyther gan fod ei chyfnod fel aelod o'r Awdurdod yn dod i ben ar y 1af o Ionawr 2018. Atgoffodd yr Aelodau bod Ms Gwyther wedi bod yn Aelod o'r Awdurdod ers mis Ionawr 2008 gan gyfeirio at ei hymrwymiad i'r Parc Cenedlaethol ac at les pobl Sir Benfro. Byddent yn gweld ei heisiau mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, a dymunodd yn dda iddi i'r dyfodol. Gan ddiolch iddi am ei geiriau caredig, atebodd Ms Gwyther ei bod wedi gweld yr Awdurdod yn dod drwy rai amseroedd anodd, ac y byddai bob amser yn parhau i fod yn gyfaill i'r Parc.

Hefyd dywedodd y Cadeirydd mai heddiw fyddai diwrnod olaf y Swyddog Monitro, Mr John Parsons, gan ei fod yn ymddeol. Diolchodd iddo am roi cyngor clir, cytbwys a doeth, oedd hefyd yn llawn ffraethineb a hiwmor. Gwyddai y byddai'r Aelodau yn gweld eisiau ei gyngor cadarn, a dymunodd ymddeoliad hir a hapus iddo.

Diolchodd y Swyddog Monitro i'r Aelodau ac i'r cyn Aelodau am y modd yr oeddent wedi gwasanaethu'r Awdurdod, a'i obaith oedd y byddai'r safonau uchel a osodwyd ganddynt yn cael eu cynnal yn y dyfodol er sicrhau llywodraethu da. Roedd y ffaith nad oedd un Aelod wedi'i gael yn euog gan yr Ombwdsmon ers iddo ddod yn Swyddog Monitro yn deyrnged i bob un ohonynt. Hefyd dymunodd ddiolch i'r swyddogion fu'n gwasanaethu buddiannau lleol a chenedlaethol mor dda, a mynegodd ei ddiolchgarwch yn arbennig i'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd am eu holl gefnogaeth.

Yn olaf, croesawodd y Cadeirydd Mr Nick Selwyn a Mr Steve Frank o Swyddfa Archwilio Cymru fyddai'n cyflwyno'r Adroddiad Gwella Blynyddol yn ddiweddarach yn y cyfarfod.

## NODWYD.



## 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am fod yn absennol oddi wrth y Cynghorydd M Evans a Mrs J James.

## 3. Datgan Buddiannau

Dywedodd y Cynghorydd P Harries bod ganddo fuddiant yn yr adroddiad ar waredu eiddo'r Awdurdod ar Stryd Hir, Trefdraeth, gan ychwanegu ei fod wedi cael goddefeb gan Bwyllgor Safonau yr Awdurdod i siarad a phleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â'r mater dan sylw.

## 4. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 27<sup>ain</sup> o Fedi 2017 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 27<sup>ain</sup> o Fedi 2017.

## 4. Materion yn codi o'r cofnodion

### (a) Cynigion i Ddatblygu Gardd Furiog Castell Caeriw (Cofnod 10)

Dywedodd y Prif Weithredwr bod yr Awdurdod wedi llwyddo i sicrhau Grant Croeso Cymru i'r prosiect i gwblhau'r Wal Furiog yng Nghaeriw ac felly ni fyddai angen yn awr y swm o arian y cytunwyd arno yn y cyfarfod i dalu am yr elfen honno o'r gwaith o goffrau'r Awdurdod.

**NODWYD.**

- (b) Melin a Sarn Caeriw - Atgyweiriadau Statudol Deddf Cronfeydd Dŵr  
Roedd y gwaith ar fin cychwyn ar y Sarn. Fodd bynnag, roedd y ddau dendr a gyflwynwyd ar gyfer y gwaith yn uwch na'r hyn a gyllidebwyd, er y nodwyd bod pris y gwaith wedi'i ostwng drwy drafod. Byddai cyllido'r prosiect yn dal i gael ei dalu o gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod.

**NODWYD.**

## 5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Cyhoeddodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau canlynol, yn ogystal â chyfarfodydd eraill, ar ran yr Awdurdod:

- Seminar Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru 3<sup>ydd</sup> a'r 4<sup>ydd</sup> o Hydref yn Aberhonddu
- Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a Chynhadledd Parciau Cenedlaethol y DU rhwng 24 a 27 Hydref yn South Downs
- Cyfarfod â'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Hannah Blythyn AC, ynghyd â chynrychiolwyr o'r Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru.

Roedd y Seminar a'r Gynhadledd wedi bod yn ddiddorol, gan drafod syniadau y gellid eu datblygu yng nghyd-destun yr Awdurdod ei hun. O



ran y cyfarfod gyda'r Gweinidog, oedd newydd ei phenodi'n ddiweddar, nid oedd newyddion y gyllideb yn dda gan y byddai'r Awdurdod yn derbyn toriad o 5% ar gyfer y blynyddoedd ariannol 18/19 a 19/20. Ychwanegodd y Prif Weithredwr y byddai gweithdy yn cael ei gynnal ar gyfer yr Aelodau ar 13 Rhagfyr i drafod materion y gyllideb.

## **6. Adroddiadau cyfarfodydd gwahanol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried neu er gwybodaeth:

- (i) Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 20 Medi 2017;
- (ii) Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 6 Medi 2017;
- (iii) Pwyllgor Cronfa Datblygu Cynaliadwy a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2017;
- (iv) Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2017.

## **7. Swyddfa Archwilio Cymru - Adroddiad Gwella Blynyddol 2016-17**

Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, gyflwyno adroddiad ar y gwaith archwilio ac asesu i weld a oedd yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau a bodloni gofynion y Mesur. Fel rhan o'i waith, roedd adolygiad sylfaenol o lywodraethu ar draws y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru hefyd wedi'i gynnal, ac roedd copi o'r llythyr yn amlinellu'r broses a chanfyddiadau'r adolygiad hwn hefyd wedi'i gynnwys i'r Aelodau.

Yna gwahoddwyd Mr Selwyn o'r Swyddfa Archwilio i gyflwyno ei adroddiad. Roedd ei adroddiad yn amlinellu'r pedwar darn o waith oedd wedi'u cyflawni yn ystod y flwyddyn, ac roedd wedi dod i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi bodloni ei ofynion statudol o ran gwelliant parhaus, ac wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran cyflwyno adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau, a bod barn archwilio ddiamod wedi'i chyhoeddi.

O ran yr Adolygiad Llywodraethu, dywedodd Mr Franks mai dyma oedd y cyntaf mewn cyfres o adolygiadau a gynhaliwyd yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd yr adolygiad wedi canolbwyntio ar ddiwylliant llywodraethu, archwilio agweddau, gwerthoedd, credoau ac ymddygiadau, ac roedd yr adolygiad wedi cynnwys anfon arolygon barn at Aelodau a staff yr Awdurdod gyda gweithdai dilynol hefyd wedi'u cynnal. Roedd yr ymatebion a gasglwyd wedi galluogi meincnodi ar draws y tri Awdurdod, ac roedd hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn. Roedd dau gynnydd ar gyfer gwelliant wedi'u clustnodi, fel y nodwyd yn yr adroddiad, ac roedd camau wedi'u cymryd ar y gwelliannau hynny.

Cytunodd yr Aelodau bod y gweithdy ar adolygu llywodraethu yr oeddent wedi ei fynychu wedi bod yn werth chweil, ac awgrymwyd y gallai'r themâu, y materion a'r cynigion ar gyfer gwella a godwyd yn yr adroddiad gael eu trafod ymhellach mewn gweithdy. Hefyd gofynnwyd y cwestiwn



ynghylch ffioedd archwilio, yr oedd yr adroddiad wedi nodi eu bod 'ar y cyfan yn unol' â'r hyn a gytunwyd. Atebodd Mr Selwyn bod y ffi wedi bod mwy neu lai yr un peth â'r flwyddyn flaenorol, ac wedi'i ostwng £53; roedd hyn oherwydd y gostyngiad mewn costau cyflwyno. Byddai'r gwaith yn y dyfodol yn parhau i ganolbwyntio ar ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hytrach nag ar y broses. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod angen newid deddfwriaethol i wneud gwaith archwilio yn gydnaws â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Mesur Llywodraeth Leol.

Hefyd nododd y Cadeirydd bod teitl anghywir yr Awdurdod wedi'i ddefnyddio drwy adroddiad y Swyddfa Archwilio.

**PENDERFYNWYD** derbyn a nodi'r Adroddiad Gwella Blynyddol.

#### **8. Tystysgrif Cydymffurfiaeth ar gyfer Archwiliad o Asesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro o Berfformiad 2016-17**

Dywedwyd bod gofyn i Swyddfa Archwilio Cymru, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, farnu a oedd yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â chyflwyno adroddiadau gwella ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Yn ddiweddar, roedd Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi rhoi ei farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau.

**PENDERFYNWYD** derbyn a nodi'r Llythyr Asesiad Gwella.

#### **9. Ymgynghoriad ar Gynllun Llesiant Sir Benfro a Goblygiadau'r Amcanion a'r Ffrydiau Gwaith ar Weithgareddau'r Awdurdod**

Atgoffwyd yr Aelodau bod gofyn i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Iunio Cynllun Llesiant oedd yn nodi sut y byddai'n gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Sir Benfro. Roedd y Cynllun drafft wedi'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghori, a gofynnwyd am farn yr Aelodau ar y Cynllun, ynghyd â'i oblygiadau ar waith yr Awdurdod. Hefyd nodwyd y gallai'r Aelodau ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad, a rhoddwyd y manylion am sut y gallent wneud hynny.

Cymeradwyodd yr Aelodau y Cynllun drafft, a ddisgrifiwyd ganddynt fel cynllun bywiog a hawdd ei ddarllen, oedd yn amlygu'r hyn oedd yn digwydd yn y sir. Hefyd roeddent yn cydnabod pwysigrwydd y ddogfen o ran pennu fframwaith ar gyfer gwaith yr Awdurdod, a gofynnwyd am i unrhyw newidiadau i'r Cynllun fyddai'n deillio o sylwadau a wnaed gan gyrff eraill gael eu dwyn i'w sylw.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr na fyddai'r Awdurdod yn ymateb i'r ymgynghoriad gan fod yr Awdurdod wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i



baratoi. Y gobaith oedd y byddai'r Cynllun terfynol yn dod gerbron cyfarfod mis Mawrth o'r Awdurdod i'w gytuno.

## **NODWYD.**

- 10. Y Diweddaraf am Waredu Eiddo'r Awdurdod ar Stryd Hir, Trefdraeth**  
Atgoffwyd yr Aelodau am y penderfyniad a wnaed yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 27 Medi 2017 i gau'r elfen o weithrediadau'r Awdurdod o gyfarfod â'r cyhoedd wyneb yn wyneb ar ei safle ar Stryd Hir yn Nhrefdraeth, a bod y cam hwn yn cael ei gwblhau erbyn 28 Chwefror 2018. Roeddent wedi cael gwybod y byddai hyn yn golygu bod yr eiddo yn cael ei ddatgan yn ddiangen i ofynion gweithredol yr Awdurdod ac felly'n cael ei waredu ar y farchnad agored yn unol â'i Bolisi o Reoli Asedau.

Dywedwyd bod mynegiant o ddiddordeb ysgrifenedig cychwynnol wedi'i dderbyn oddi wrth Gyngor Tref Trefdraeth yn holi am y posibilrwydd eu bod yn defnyddio'r adeilad yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau o gyfarfod â'r gymuned wyneb yn wyneb o fewn yr egwyddor o Drosglwyddo Asedau Cymunedol. O ystyried y ffaith y gallai fod endidau cyfreithiol eraill â dyheadau cystadleuol ar gyfer y safle yn ôl yr egwyddor o Drosglwyddo Asedau Cymunedol, awgrymwyd y dylid ystyried hysbyseb agored sy'n hyrwyddo'r cyfle i bawb. Nodwyd bod y canllawiau yn awgrymu na fyddai gwaredu rhydd-ddaliad yn gam darbodus fel arfer, a'i bod yn debygol mai rhyw fath o brydles galwedigaethol ar delerau atgyweirio ac yswirio llawn fyddai'n fwyaf priodol, er y byddai manylion hyn yn dibynnu ar y Mynegiant o Ddiddordeb a gymerir ymlaen.

Dywedodd y Cadeirydd i gychwyn bod y nifer fawr o negeseuon yr oedd hithau ac Aelodau eraill wedi eu derbyn oddi wrth drigolion Trefdraeth, oedd yn ei barn hi yn amlygu natur fywiog y gymuned, yn galonogol iawn. Dywedodd hefyd ei bod hi wedi derbyn y bore hwnnw fersiwn ddiweddaraf o ddeiseb yn gofyn am i'r Ganolfan Ymwelwyr barhau i fod ar agor.

Gan adleisio geiriau'r Cadeirydd, a llongyfarch y gymuned am eu brwdfrydedd a'u cefnogaeth i gynnal canolfan ymwelwyr yn Nhrefdraeth, roedd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol, er bod y gymuned yn anghytuno â'r penderfyniad i gau'r ganolfan, bod cefnogaeth gref i ddod o hyd i ffordd ymlaen realistig a phragmatig drwy'r broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol a awgrymwyd gan Gyngor Tref Trefdraeth. Felly, nid oedd unrhyw betruster wrth gynnig bod argymhelliad y swyddog yn mynd rhagddo. Hefyd calonogwyd yr Aelodau gan y datganiad bod prydles, yn hytrach na gwaredu rhydd-ddaliad, yn cael ei ystyried.

Fodd bynnag, roedd un Aelod yn dal yn bryderus na fyddai gan yr Awdurdod bresenoldeb mwyach yn Nhrefdraeth, a gofynnodd am



eglhurhad a ellid gwaredu'r adeilad, mewn gwirionedd, gan ei bod hi ar ddeall bod yr adeilad wedi'i roi yn rhodd i'r Awdurdod. Eglurodd y Prif Weithredwr bod adeilad, nid yr un a ddefnyddir fel Canolfan Ymwelwyr ar hyn o bryd, wedi ei adael mewn ewyllys i'r Awdurdod. Fodd bynnag derbyniwyd y gymynrodd ar y sail nad oedd unrhyw amodau. O ran y diffyg presenoldeb yn y dref, ychwanegodd bod yr Awdurdod yn parhau yn hapus i weithio gyda sefydliadau eraill yn Nhrefdraeth a'r ardaloedd cyfagos i ddarparu gwybodaeth yn y dyfodol.

Gofynnodd Aelodau eraill am eglurhad ynglŷn ag amserlen y broses pe cytunwyd ar yr argymhelliad. Atebodd y Swyddogion y byddai hyn yn dibynnu ar y Mynegiant o Ddiddordeb a ddaw i law, ond barnwyd y byddai'n debygol o gymryd rhywle rhwng chwech a naw mis o'r adeg hysbysebu hyd at baratoi dogfen prydles. Eglurwyd mai'r broses arferol o waredu ased oedd i geisio cynigion, byddai Grŵp Eiddo a Phrosiectau yr Awdurdod yn eu hystyried ac yn gwneud argymhelliad i Dîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod ac yn ei dro i'r Awdurdod am benderfyniad terfynol.

**PENDERFYNWYD** awdurdodi swyddogion i fwrw ymlaen â gwaredu buddiant cyfreithiol yr Awdurdod yn ei eiddo ar Stryd Hir, Trefdraeth yn gwbl unol â'r penderfyniad dyddiedig 27 Medi, 2017, gyda'r cafeat y dylid gwahodd a rhoi ystyriaeth resymol i unrhyw gynigion hyfyw sy'n seiliedig ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol y mae'r Awdurdod yn eu derbyn cyn gwaredu'r eiddo ar y farchnad agored, a bod adroddiad diweddarau yn cael ei gyflwyno gerbron yr Awdurdod i'w gymeradwyo cyn rhoi unrhyw fuddiant cyfreithiol newydd yn yr adeilad.

#### **11. Gosod Dan Ddaear y Llinellau Trydan Uwchben ar Benrhyn Castell, San Ishmael**

Atgoffwyd yr Aelodau am lwyddiant yr Awdurdod yn cyflawni pump o gynlluniau gwella tirwedd o dan fenter Western Power Distribution (WPD) i osod llinellau trydan dan ddaear, a'r llwyddiant o sicrhau sawl cynllun arall o dan eu cynllun busnes cyfredol ar gyfer 2015/23. Rhoddwyd manylion am gynllun pellach ar Benrhyn Castell yr oedd y swyddogion yn ei argymhell yn awr oherwydd y morwedd a'r dirwedd o ansawdd uchel a bod modd cyrraedd y lle yn hwylus.

Roedd y perchnogion eiddo perthnasol wedi rhoi eu cefnogaeth mewn egwyddor, ac yn amodol ar gael unrhyw ganiatâd statudol/cyfreithiol angenrheidiol, rhagwelwyd y gellid cwblhau'r gwaith ar y safle, fyddai'n cael ei gyflawni a'i ariannu gan WPD, yn ystod 2018/19.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cynllun i osod dan ddaear y llinellau trydan uwchben ar Benrhyn Castell, San Ishmael, fel y nodwyd yn yr adroddiad, ac awdurdodi'r gwaith parhaus tuag at sicrhau bod y cynllun yn cael ei wireddu gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.



## 12. Adolygiad Blynyddol o'r modd y mae Safleoedd Parcio Ceir yr Awdurdod yn cael eu Rhedeg a'u Rheoli 2017

Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Aelodau am y camau a gymerwyd gan y swyddogion dros y 12 mis blaenorol, gan gynnwys crynodeb o'r gwaith o redeg meysydd parcio yr Awdurdod yn ystod tymor codi tâl 2017, ac yn amlinellu'r amcanion sy'n flaenoriaeth cyn tymhorau codi tâl 2018 a 2019.

Gan ddiolch i'r swyddogion am yr adroddiad, roedd un Aelod yn siomedig gyda'r sefyllfa ariannol net oherwydd cynnydd yn y costau gweithredu, a gofynnodd a oedd y sefyllfa hon yn debygol o wella yn y dyfodol. Eglurwyd mai'r rheswm tebygol oedd tan-fuddsoddi yn y meysydd parcio dros y blynyddoedd diwethaf, a bod y ffigurau yn adlewyrchiad mwy realistig o'r costau gweithredu. Roedd cwestiynau eraill yn ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg, cost gorfodaeth parcio, y posibilrwydd o dalu â cherdyn a'r bwriad i godi'r tâl dyddiol am barcio bysiau fyddai'n effeithio'n gyfan gwbl ar ymwelwyr.

O ran gorfodaeth parcio, atgoffwyd yr Aelodau bod hyn wedi'i gontractio allan i Gyngor Sir Penfro oedd wedi sicrhau swyddogion bod y gwasanaeth i'r Awdurdod yn cael ei ddarparu ar sail adennill costau. Nodwyd nad oedd hysbysiadau cosb yn creu refeniw ynddynt eu hunain, ond roedd tystiolaeth yn awgrymu eu bod wedi arwain at gynnydd yn nifer y tocynnau parcio a werthwyd. Roedd y penderfyniad i gynyddu'r tâl dyddiol am barcio bysiau o £3 i £8 wedi'i wneud yn y lle cyntaf yn 2017 i amlygu'n fwy teg y gofod a gymerir gan fws mewn maes parcio o'i gymharu â char. Roedd llefydd parcio i fysiau ar gael ym meysydd parcio Oriol y Parc ac yn Saundersfoot ac ni chafwyd unrhyw awgrym gan y cwmnïau bysiau y byddai'r cynnydd hwn yn y pris yn eu hatal rhag ymweld. Nodwyd hefyd bod y mater o ran darparu'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg bellach wedi'i ddatrys. Roedd y gwaith i ganiatau'r opsiwn i dalu gyda cherdyn ym meysydd parcio yr Awdurdod yn parhau, ond sicrhawyd yr Aelodau y byddai pob peiriant yn parhau i dderbyn darnau arian, ac mai dewis ychwanegol fyddai talu gyda cherdyn.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r camau o weithredu parhaus gan y swyddogion yn barod ar gyfer y tymor parcio ceir yn 2018 a bod y gwaith i fwrw ymlaen â'r amrywiad cyfreithiol i'r Gorchymyn Meysydd Parcio yn parhau, a bod gweithredu'r amrywiadau hynny i ddod i rym o ddechrau'r tymor codi tâl yn y meysydd parcio yn 2019.

*[Ymddiheurodd y Cynghorydd A Wilcox a gadawodd y cyfarfod yr adeg hon. Nid oedd y Cynghorydd R Owens yn bresennol ar gyfer y ddwy eitem ganlynol (cyfeirir atynt yng Nghofnodion 13 a 14).]*



### 13. **Adolygu Ffin Ardal Gadwraeth Porth-gain**

Dywedwyd bod ffin Ardal Gadwraeth Porth-gain wedi'i hadolygu yn ddiweddar, a chynigiwyd y dylid ymestyn y ffin i'r gorllewin i gynnwys archaeoleg ddiwydiannol bwysig, fel y dangosir ar y map oedd ynghlwm wrth yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** diwygio Ardal Gadwraeth Porth-gain fel y nodir ar y map, bod data sylfaenol ac anodi'r map yn cael eu diweddarau yn unol â hynny a bod hysbysiadau statudol yn cael eu rhoi yn y wasg leol ac yn y London Gazette.

*[Cytunodd y Cadeirydd i gymryd yr eitem ganlynol allan o drefn gan fod rhaid i'r Prif Weithredwr adael y cyfarfod.]*

### 14. **Y wybodaeth ddiweddaraf am benodi Swyddog Monitro**

Atgoffodd y Prif Weithredwr yr Aelodau bod y dasg o recriwtio Swyddog Monitro wedi'i dirprwyo yn y cyfarfod diwethaf o'r Awdurdod i'r Pwyllgor Personél. Roedd angen gwneud hyn o ganlyniad i ymddeoliad y Swyddog Monitro presennol. Yn anffodus, yn dilyn hysbysebu, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau, ac roedd y Pwyllgor Personél wedi cyfarfod ac wedi cytuno ar gamau gweithredu i'r dyfodol. Un elfen o hyn oedd trafod gydag awdurdodau cyfagos ynglŷn â rhannu Swyddog Monitro. Roedd un Awdurdod wedi mynegi diddordeb, a byddai cyfarfod i drafod hyn yn digwydd yn yr wythnosau nesaf. Agwedd arall oedd edrych eto ar y disgrifiad swydd, ac o wneud hynny, daeth yn amlwg bod llawer o'r swyddogaethau eisoes yn cael eu cyflawni gan y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd. Cytunodd y Pwyllgor felly i benodi Dirprwy Swyddog Monitro am gyfnod o 12 mis. Hefyd roedd y Swyddog Monitro presennol wedi cytuno i barhau yn ei swydd yn y cyfamser hyd nes y penodir olynydd parhaol.

Roedd yr Aelodau yn hapus â'r penderfyniadau gan longyfarch y Dirprwy Swyddog Monitro newydd ar ei phenodiad.

**NODWYD.**

### 15. **Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2018/19**

Dywedwyd bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol wedi cyhoeddi ei Adroddiad Blynyddol drafft yn ddiweddar ar gyfer 2018/19, a rhoddwyd crynodeb o'r prif bwyntiau perthnasol, gyda'r newidiadau yn dod i rym ar y 1<sup>af</sup> o Ebrill 2018. Gofynnwyd am farn yr Aelodau ynghylch a ddylid cyflwyno ymateb i'r adroddiad i'r Panel, ac os felly, beth ddylai cynnwys yr ymateb fod.

**PENDERFYNWYD** peidio â chyflwyno ymateb i Adroddiad Blynyddol drafft 2018/19 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.





## 16. **Drafft o Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022**

Atgoffwyd yr Aelodau bod drafft o Strategaeth Iaith Gymraeg oedd yn nodi, ymysg materion eraill, sut y byddai'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i defnydd yn cael ei hwyluso, wedi'i fabwysiadu at ddibenion ymgynghori yng nghyfarfod mis Mawrth o'r Awdurdod. Roedd y Strategaeth wedi'i diwygio yng ngoleuni'r sylwadau a dderbyniwyd, a chyflwynwyd dogfen ddrafft derfynol i'r Aelodau i'w hystyried.

Gan ddiolch i'r swyddogion am y gwaith a wnaed ar y Strategaeth ddrafft ers ei chyhoeddi gyntaf, mynegodd yr Aelodau eu cefnogaeth i'r ddogfen. Fodd bynnag, mynegwyd pryder ynghylch y cyfeiriadau at y gwahaniaeth yn nifer y siaradwyr Cymraeg yng ngogledd a de'r sir gan fod siaradwyr Cymraeg ym mhob ward. Hefyd roedd angen gwneud asesiad o effaith pob dogfen fel bod yr hyrwyddo yn mynd law yn llaw â'r polisi. Awgrymwyd y gellid amlygu rôl yr Awdurdod fel cyflogwr hefyd, gan roi ystadegau ar nifer y staff sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd. Yn olaf, cafwyd cais i ddarparu mwy o wybodaeth i ymwelwyr ar ynganiad Cymraeg, yn enwedig enwau lleoedd, gan fod hyn yn rhywbeth oedd o ddiddordeb i nifer.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r fersiwn drafft o'r Strategaeth Iaith Gymraeg 2017-2022 a datblygu set o fesurau perfformiad SMART i werthuso effaith y prosiectau/mentrau a gynhwysir yn y strategaeth ar amcan y strategaeth yn gyffredinol.

